

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

6 Ebrill 2022

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 yn awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud at ddiben masnachol unrhyw beth y maent wedi'i awdurdodi i'w wneud at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau cyffredin ac yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag arfer y pŵer i fasnachu gan awdurdod perthnasol. Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 hefyd yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006.
- 1.2. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adrannau 95(1)(a) a (3), 96(1), (3)(b) ac (c), a 123(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003").
- 3.2. Mae adran 95 o'r Ddeddf (pŵer i fasnachu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swyddogaeth drwy gwmni) yn rhoi pŵer i'r person priodol, drwy Orchymyn, awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud at ddiben masnachol unrhyw beth y mae ganddynt awdurdod i'w wneud at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau arferol ("y pŵer i fasnachu") ac i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag arfer y pŵer i fasnachu gan awdurdod perthnasol.
- 3.3. O dan adran 95(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r pŵer a roddir gan Orchymyn o dan adran 95 gael ei arfer drwy gwmni yn unig.
- 3.4. Mae adran 96 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r person priodol osod amodau ar arfer y pŵer i fasnachu.
- 3.5. Mae adran 123 o'r Ddeddf yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau o dan (y Ddeddf hon) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ardaloedd yn ogystal â phŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol neu drosiannol neu arbedion. Mae'r pŵer hwnnw'n cynnwys pŵer i ddiddymu unrhyw ddeddfiad neu unrhyw offeryn a wneir o dan unrhyw ddeddfiad.
- 3.6. Mae adran 124 o'r Ddeddf yn diffinio'r person priodol, mewn perthynas â Chymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae'r pwerau yn adrannau 95 a 96 felly yn bwerau i Weinidogion Cymru.

3.7. Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 ("y Gorchymyn 2022 ") yn awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud at ddiben masnachol unrhyw beth y maent wedi'i awdurdodi i'w wneud at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau cyffredin ac yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag arfer y pŵer i fasnachu gan awdurdod perthnasol. O dan adran 95(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r pŵer a roddir gan y Gorchymyn 2022 gael ei arfer drwy gwmni yn unig.

4.2. Yr awdurdodau perthnasol sydd wedi'u hawdurdodi i arfer y pŵer i fasnachu yw'r awdurdodau perthnasol hynny yng Nghymru sef:

- a) cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol
- b) cynghorau cymuned cymwys (hynny yw, y cynghorau cymuned hynny sy'n bodloni'r amodau i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol o dan adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ("Deddf 2021")
- c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- d) awdurdodau tân ac achub, a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo
- e) cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021

4.3. Mae'r Gorchymyn 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol, cyn y gall arfer y pŵer, baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi'r bwriad i arfer y pŵer. Rhaid cyhoeddi'r achos busnes cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

4.4. Mae'r Gorchymyn 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r achos busnes gynnwys:

- nodau ac amcanion y bwriad i arfer y pŵer cyffredinol;
- y costau, y buddsoddiadau a'r adnoddau eraill y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- y canlyniadau ariannol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwy'r cynnig i arfer y pŵer cyffredinol;
- unrhyw ganlyniadau perthnasol eraill y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwy'r cynnig i arfer y pŵer cyffredinol;
- unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i arfer y pŵer cyffredinol gan gynnwys asesiad o ddifrifoldeb y risgiau hynny, ac unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny;
- yr effaith (gan gynnwys yr effaith ar delerau ac amodau cyflogaeth) ar unrhyw staff y mae'n bwriadu eu cyflenwi i gwmni y mae'n bwriadu arfer y pŵer drwyddo;

- y trefniadau a fwriedir ar gyfer staffio'r cwmni y mae'n bwriadu arfer y pŵer drwyddo, gan gynnwys telerau ac amodau cyflogaeth arfaethedig unrhyw staff sydd i'w cyflogi.
- 4.5. Mae'r Gorchymyn 2022 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol adennill, oddi wrth unrhyw gwmni y mae'n arfer y pŵer i fasnachu drwyddo, gostau unrhyw lety, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall y mae'n ei gyflenwi i'r cwmni.
 - 4.6. Mae'r Gorchymyn 2022 hefyd yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006").
 - 4.7. Ar yr adeg y gwnaed Gorchymyn 2006, roedd adran 95 o'r Ddeddf yn cyfeirio at awdurdodau gwerth gorau ('best value authorities').
 - 4.8. Roedd adran 95 o'r Ddeddf yn wreiddiol yn cyfeirio at awdurdod gwerth gorau ('best value authority') fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1999. Diwygiwyd y gyfundrefn gwerth gorau yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007, ac o ganlyniad i hynny disodlwyd cyfeiriadau at awdurdod gwerth gorau yn adrannau 95 a 96 o Ddeddf 2003 gan awdurdod perthnasol ('relevant authority'), fel y'i diffinnir yn adran 95(7) (o'r Ddeddf).
 - 4.9. Roedd y diffiniad o awdurdod perthnasol yn cynnwys awdurdod gwerth gorau fel y'i diffinnir yn Neddf 1999 (mewn perthynas â Chymru - cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân ac achub neu awdurdod Parc Cenedlaethol) a chyngor cymuned.
 - 4.10. Dileodd Mesur Llywodraeth Leol 2009 awdurdodau Cymreig o'r diffiniad o awdurdod gwerth gorau yn Neddf 1999 a diwygiodd y diffiniad o awdurdod perthnasol yn adran 95 o Ddeddf 2003 ymhellach, gan ychwanegu Awdurdod Gwella Cymreig ('Welsh Improvement Authority') fel y'i diffinnir ym Mesur Llywodraeth Leol 2009. Mae cyngorau cymuned wedi'u cynnwys yn y diffiniad yn adran 95 o'r Ddeddf o hyd.
 - 4.11. Ar 1 Ebrill 2021, cafodd y diffiniad o awdurdod perthnasol yn adran 95 o'r Ddeddf ei ddiwygio ymhellach gan Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021 er mwyn dileu Awdurdod Gwella Cymreig a mewnosod:
 - cyngor sir neu gyngor bwrdeistref yng Nghymru
 - Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru
 - awdurdod tân ac achub yng Nghymru, a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
 - 4.12. Fel rhan o'r broses o roi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") ar waith, mae'r Gorchymyn 2022 yn disodli Gorchymyn 2006 er mwyn cyfeirio at yr awdurdodau fel y'u diffinnir ar hyn o bryd yn adran 95 o'r Ddeddf.

4.13. Mae'r pŵer i fasnachu yn ymestyn i'r cynghorau cymuned hynny sy'n gynghorau cymuned cymwys o fewn adran 30 o Ddeddf 2021, h.y. y cynghorau cymuned hynny a all arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno. Mae hefyd yn ymestyn i gyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan ran 5 o'r Ddeddf honno yn rhinwedd diwygiadau a wnaed i adran 95 o'r Ddeddf gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022.

5. Ymgynghori

- 5.1. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar gynigion mewn perthynas â'r amodau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru eu bodloni i wneud pethau at ddiben masnachol gan ddefnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a ddarparwyd i awdurdodau lleol cymwys drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.
- 5.2. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei bwriad i ail-wneud Gorchymyn 2006 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r diffiniadau o awdurdodau perthnasol yn adran 95 o'r Ddeddf, ymestyn y Gorchymyn i awdurdodau perthnasol pellach ac adlewyrchu'r amodau a gynigir yn Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021.
- 5.3. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd i'r ymatebwyr a ddylai cynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol gael eu hawdurdodi hefyd i fasnachu yn eu swyddogaethau cyffredin.
- 5.4. Yn ogystal, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 drafft, ar y bwriad i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y Gorchymyn Pŵer i Fasnachu.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1. Mae'n ofynnol i Orchymyn 2022 gael ei wneud i ddisodli Gorchymyn 2006, i ychwanegu awdurdodau perthnasol pellach, ac i ymdrin â'r diwygiadau amrywiol i ddiffiniadau o awdurdodau perthnasol yn adran 95 o'r Ddeddf y gwnaed Gorchymyn 2006 oddi tani, fel y trafodir yn adran 4 uchod.
- 6.2. Er bod Gorchymyn 2022 yn cynnwys rhai newidiadau technegol i'r amodau sy'n ofynnol ar gyfer yr achos busnes, mae'n ofynnol ar hyn o bryd, o dan Orchymyn 2006, i gynghorau sir, neu gynghorau sir neu fwrdeistref, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(2) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo, baratoi a chymeradwyo achos busnes cyn arfer y pŵer i fasnachu a awdurdodwyd gan y gorchymyn hwnnw.
- 6.3. Mae cynghorau sir, neu gynghorau sir neu fwrdeistref, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(2), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo, wedi bod yn masnachu (neu wedi

meddu ar y gallu i fasnachu) o dan Orchymyn 2006 ers 2006 a bydd ganddynt systemau ar waith i ddarparu ar gyfer paratoi achos busnes os ydynt yn dymuno arfer y pŵer hwnnw. Felly, ni ragwelir y byddai Gorchymyn 2022 yn arwain at unrhyw gostau i'r awdurdodau hyn.

- 6.4. Mewn gwirionedd, mae Gorchymyn 2022 yn ailddatgan y sefyllfa ar gyfer cynghorau sir, neu gynghorau sir neu fwrdeistref, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(2) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo. Felly, ystyrir nad oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol i'r awdurdodau hyn wrth wneud Gorchymyn 2022.
- 6.5. Fodd bynnag, yn dilyn cynnwys cynghorau cymuned a chyd-bwyllgorau corfforedig yng Ngorchymyn 2022, mae'n angenrheidiol ystyried y costau i'r awdurdodau hyn o ganlyniad i'w cynnwys yng Ngorchymyn 2022.
- 6.6. Wrth ystyried y costau i gyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:
 - Opsiwn1: peidio â chynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yng Ngorchymyn 2022.
 - Opsiwn 2: cynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yng Ngorchymyn 2022
- 6.7. Mae'n werth nodi mai dyma'r un dull a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 o ran y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 sy'n darparu ar gyfer cyfyngiadau penodol (yn debyg i'r rhai yng Ngorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022) ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt wneud rhywbeth at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol).

Opsiwn 1: peidio â chynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yng Ngorchymyn 2022

- 6.8. Mae adran 95 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i awdurdodi awdurdod perthnasol i wneud at ddibenion masnachol unrhyw beth y mae wedi'i awdurdodi i'w wneud at ddiben cyflawni ei swyddogaethau cyffredin. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yn cael eu cynnwys yng Ngorchymyn 2022 ac felly ni fyddai unrhyw newid yn eu statws presennol sy'n golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

Costau

- 6.9. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Manteision

- 6.10. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol yn sgil yr opsiwn hwn ac ni fyddai cynghorau cymuned cymwys a chyd-bwyllgorau corfforedig yn cael eu hawdurdodi i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol.

Opsiwn 2: cynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yng Ngorchymyn 2022

- 6.11. O dan opsiwn 2 byddai Gorchymyn 2022 yn darparu y byddai cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys yn gallu gwneud unrhyw beth y maent wedi'i awdurdodi i'w wneud at ddibenion cyflawni eu swyddogaethau cyffredin (cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud drwy gwmni).
- 6.12. Cyn arfer y pŵer, byddai'n ofynnol i gyd-bwyllgor corfforedig neu gyngor cymuned cymwys hefyd baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi'r bwriad i arfer y pŵer.
- 6.13. Byddai'n ofynnol i'r achos busnes fanylu ar y materion a amlinellir yn adran 4 uchod.

Costau

- 6.14. Rhagwelir y gallai gofynion y Gorchymyn 2022 drafft arwain at rywfaint o gyfle ychwanegol a chostau gweinyddol ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys pe baent yn dewis arfer y pŵer i fasnachu'n fasnachol.
- 6.15. Rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o achosion busnes yn cael eu paratoi'n 'fewno!' gan gyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys ac y byddai'r costau felly yn ymwneud ag amser staff i wneud y gwaith hwn. Pe bai cyd-bwyllgorau corfforedig neu chynghorau cymuned cymwys yn ystyried gwneud rhywbeth arbennig o fawr neu gymhleth at ddiben masnachol, gallent ystyried cyflogi contractwyr allanol a fyddai'n golygu costau ychwanegol.
- 6.16. Un ffactor allweddol wrth gyfrifo'r costau i gyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys o gydymffurfio â'r gofynion hyn fydd pa mor aml y maent yn ceisio arfer y pŵer i fasnachu a chymhlethdod yr hyn y maent yn ceisio'i wneud.
- 6.17. Mae'r pŵer i wneud at ddibenion masnachol unrhyw beth y mae cyd-bwyllgor corfforedig neu gyngor cymuned cymwys wedi'i awdurdodi i'w wneud er mwyn cyflawni ei swyddogaethau cyffredin o dan Orchymyn 2022 yn bŵer galluogi, sy'n rhoi disgrisiwn i gyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau cymuned cymwys ddefnyddio'r pŵer os ydynt yn dymuno gwneud hynny. O'r herwydd, mae'n ansicr pa mor aml y byddai'r pŵer yn cael ei arfer yn y modd hwn, ac felly nid oes modd cyfrifo'r costau hyn i unrhyw raddau o sicrwydd.
- 6.18. Gan nad yw cyd-bwyllgorau corfforedig neu gynghorau cymuned cymwys wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn 2006 ar hyn o bryd, ystyrir nad oes unrhyw gostau trosiannol o ran cynnwys y cyrff hyn yng Ngorchymyn 2022.
- 6.19. Gallai'r gofyniad i adennill costau oddi wrth y cwmni y mae'r cyd-bwyllgor corfforedig neu gynghorau cymuned cymwys yn gwneud rhywbeth at ddiben masnachol drwyddo arwain at rai costau gweinyddol i'r awdurdod. Rhagwelir

mai costau dibwys fyddai'r rhain ac y gellid eu cynnwys o fewn systemau rheoli ariannol presennol yr awdurdodau. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn arwain at drosglwyddiad o'r cwmni i'r cyd-bwyllgor corfforedig neu'r cyngor cymuned cymwys, gyda'r gwerth yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddir gan y cyd-bwyllgor corfforedig neu'r cyngor cymuned cymwys i gefnogi'r gweithgaredd masnachol.

Manteision

- 6.20. Byddai paratoi a chymeradwyo achos busnes cyn i gyd-bwyllgor corfforedig neu gyngor cymuned cymwys arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol yn helpu i sicrhau eu bod yn ystyried yn llawn yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni, pam a sut y maent yn mynd i gyflawni hyn, y goblygiadau ariannol tebygol a'r manteision i'w cymunedau. Bydd hyn yn cefnogi penderfyniadau tryloyw a chadarn, gan alluogi i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n cydnabod y canlyniadau neu'r risgiau posibl ac ar ôl iddynt gael eu hystyried yn ofalus.
- 6.21. Er y gallai awdurdod, yn rhesymol, roi cymorth i gychwyn cwmni o'r fath, gallai parhau i ddarparu cymhorthdal neu gyllid ystumio'r farchnad yn annheg er anfantais i unrhyw fusnesau presennol neu ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Bydd y gofyniad bod awdurdod yn adennill costau llawn unrhyw gymorth neu wasanaethau y mae'n eu darparu i'r cwmni y mae'r pŵer i fasnachu yn cael ei wneud drwyddo at ddiben masnachol yn helpu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.
- 6.22. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ystyried costau darparu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i awdurdodau cymwys.